



Eich cyf/Your ref P-06-1383
Ein cyf/Our ref JJ/02932/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

15 Tachwedd 2023

Annwyl Jack

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Hydref, yn fy hysbysu am Ddeiseb P-06-1383 oddi wrth Carys Matthews. Rwy'n ymwybodol bod y ddeiseb eisoes wedi denu llawer o ddi-ddordeb a bydd yn cael ei thrafod gan y Pwyllgor Deisebau.

Mae'n amlwg o'ch e-bost, a'r ddeiseb, bod llawer o bobl yn teimlo'n gryf am y mater hwn. Yn ystod yr argyfwng hinsawdd hwn, sy'n fygythiad difrifol, mae angen inni sicrhau ein bod yn dod â'r arfer o losgi tanwydd ffosil i ben. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen inni harneisio potensial Cymru o ran ynni adnewyddadwy er mwyn diwallu ein hanghenion ynni.

Roedd ein hymgyngoriad diweddar ynghylch ein targedau ar gyfer ynni adnewyddadwy yn dadansoddi ein hanghenion ynni, a bydd angen amrediad o wahanol fathau o dechnolegau adnewyddadwy arnon ni, ar raddfeydd gwahanol, er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a chyrraedd ein targedau ar gyfer ynni. Ynni gwynt, ynghyd ag ynni'r haul, yw'r dechnoleg fwyaf datblygedig, ac mae'n debygol mai'r rheini a fydd yn gwneud y cyfraniad mwyaf sylweddol at ein hanghenion ynni yn y tymor byr i'r tymor canolig. Rydyn ni'n rhagweld y bydd llawer o'r dechnoleg hon ar y môr, ond bydd angen inni gynhyrchu rhagor o ynni ar y tir. Yr hyn a wnaeth y dystiolaeth sy'n ategu ein hymgyngoriad yn glir yw na allwn ni ddibynnu ar un math o ffynhonnell ynni adnewyddadwy i gefnogi ein hanghenion ynni hirdymor. Er y bydd ynni gwynt ar y môr yn cyfrannu at ein hanghenion trydan yn y dyfodol, os nad ydyn ni'n ychwanegu amrediad o ffynonellau ynni adnewyddadwy eraill, gan gynnwys ynni gwynt ar y tir, ni fyddwn yn gallu cynhyrchu digon o drydan adnewyddadwy i ddiwallu ein hanghenion.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae gwynt ar y môr eisoes yn cyfrannu at ein hamrywiaeth o fathau o ynni, ac mae'r potensial ar gyfer ynni arnofiol ar y mor yn cynnig cyfle economaidd enfawr i gyflenwyr lleol a'n cymunedau arfordirol. Dyma gyfle economaidd rwy'n benderfynol y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth yn ei gallu i fanteisio arno. Fodd bynnag, mae nifer o ysgogiadau allweddol sydd eu hangen ar y diwydiant ynni gwynt ar y môr yn nwylo Llywodraeth y DU. Heb fframwaith ategol gan Lywodraeth y DU, mae gen i bryderon na fydd y sector gwynt ar y môr yn darparu'r trydan a'r cyfleoedd economaidd y gwyddon ni y gall eu darparu. Rydyn ni wedi'i gwneud y glir wrth Lywodraeth y DU ac Ystad y Goron fod angen rhagor o waith i ddarparu lefelau uwch o sicrwydd i'r diwydiant.

Mae gennyn ni fframwaith cynllunio cadarn, gyda'n sefyllfa strategol yn cael ei hamlinellu yng Nghymru'r Dyfodol a Pholisi Cynllunio Cymru. Mae gan Gymru'r Dyfodol, a gyhoeddwyd yn 2021, statws cynllun datblygu ac mae'n nodi polisiau cynllunio strategol Llywodraeth Cymru ar amrediad o bynciau gan gynnwys ynni adnewyddadwy. Mae Cymru'r Dyfodol yn cefnogi uchelgais cyffredinol y Llywodraeth i ddatgarboneiddio ein heconomi, ac mae wedi nodi ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw yn benodol lle byddai rhagdybiaeth o blaid datblygiadau gwynt ar y tir. Mae'n ofynnol i'r holl benderfyniadau cynllunio ynghylch technoleg adnewyddadwy, gan gynnwys gwynt ar y tir, ystyried ffactorau amgylcheddol ac adborth y cyhoedd. Mae croeso i unrhyw un gyflwyno cais cynllunio ar gyfer unrhyw ddatblygiad arfaethedig, ac nid cyfyngu ar y rhyddid hwn yw'r opsiwn gorau ar gyfer y dyfodol. Nid wyf yn cefnogi'r alwad am foratoriwm ar ffermydd ynni gwynt ar y tir na ffermydd ynni'r haul, gan fod ganddyn nhw rôl bwysig o hyd yn yr amrywiaeth o fathau o ynni yn y dyfodol.

Diolch unwaith eto am eich llythyr ac am ddod â'r ddeiseb i'm sylw.

Yn gywir



Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change